CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 13 IONAWR 2009 YNG NGWESTY'R COPTHORNE, BRO MORGANNWG.

Comisiynwyr
Mr P J Wood (Cadeirydd)
Parch. H M Davies (Dirprwy Gadeirydd)
Mr J Bader (Aelod)

Ysgrifenyddiaeth
Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. D Carr
Mr. R Handscomb
Mrs. A Prescott-Bird
Mrs. C Thomas
Miss L Jones

Hefyd yn Bresennol

Mr R Phillips (Cyfreithiwr y Trysorlys)

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Gwnaeth y Comisiwn estyn ei longyfarchiadau i Mrs Susan Smith y dyfarnwyd OBE iddi yn ddiweddar am ei gwaith ar gyfer llywodraeth leol.

1. DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. PENODI DIRPRWY GADEIRYDD

2.1 Cynigiodd y Cadeirydd benodi'r Parch. Davies yn Ddirprwy Gadeirydd. Eiliwyd hyn gan Mr Bader.

3. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 26 TACHWEDD 2008

3.1 Cytunwyd ar y rhain.

4. MATERION YN CODI

Canlyniadau Etholiadau Cynghorau Cymuned

4.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd ei fod wedi derbyn ateb defnyddiol iawn gan Un Llais Cymru yn rhoi eu sylwadau ar ganlyniadau Etholiadau Cynghorau Cymuned. Roeddent hefyd wedi estyn gwahoddiad iddo i wneud cyflwyniad mewn cyfarfod o'u Pwyllgor Cynghorau Lleol Mwy yn Llandrindod yn ddiweddarach yn y mis.

Arolwg Cymunedol Blaenau Gwent

4.2 Roedd Adroddiad Cynigion Drafft Blaenau Gwent wedi'i anfon i'w gyfieithu a chaiff ei gyhoeddi ar ôl gwirio'r cyfieithiad.

Arolwg Cymunedol Abertawe

4.3 Cafwyd nifer mawr o gynrychiolaethau mewn ymateb i'r Cynigion Drafft ar gyfer Arolwg Cymunedol Abertawe. Roedd nifer o'r rhain yn cynnwys awgrymiadau newydd ar gyfer newid ffiniau y byddai angen i'w harchwilio ymhellach. Byddai angen ymweliad maes arall i'r ardal ar gyfer rhai o'r awgrymiadau hyn. **Cytunwyd** y byddai crynodeb a dadansoddiad o'r cynrychiolaethau yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Mawrth.

Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru

4.4 Cytunwyd y dylid monitro cynnydd cyflwyno argymhellion yr adroddiad a dylai fod yn eitem sefydlog ar yr agenda.

5. AROLWG CYMUNEDOL PEN-Y-BONT AR OGWR – YSTYRIAETH O GYNRYCHIOLAETHAU

5.1 Ystyriodd y Comisiwn y cynrychiolaethau a dderbyniwyd ar gyfer Adroddiad Cynigion Drafft Arolwg Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr ac ystyriodd y tri dewis a oedd wedi'u cynnig ar gyfer y ffin rhwng Cymunedau Tref Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr a oedd fel a ganlyn:

- Newid y ffin ar gyfer ystâd Fferm yr Ynys i ddilyn ffordd yr A48 tua'r dwyrain i Gylchfan Waterton a chynnwys yr holl anheddau i'r de o'r A48 yng Nghymuned Merthyr Mawr.

- Newid y ffin a argymhellwyd yn y cynigion Drafft i ddilyn yr A48 hyd Gylchfan Ewenni ac yna i ddilyn ffordd y B4265 (Ffordd Ewenni) nes iddi gyrraedd y Ffin Sirol wrth Afon Ewenni.

- Newid y ffin a argymhellwyd yn y cynigion Drafft i barhau ar hyd yr A48 hyd Gylchfan Ewenni ac yna i ddilyn y B4265 (Ffordd Ewenni) nes cwrdd â'r llinell rheilffordd sy'n rhannu'r ardal ac i'r ffin gymuned ddilyn y llinell rheilffordd nes iddi gwrdd â'r Ffin Sirol yn y man lle mae'r rheilffordd yn croesi Afon Ewenni.

5.2 Nodwyd bod tystiolaeth i awgrymu nad oedd rhai o'r preswylwyr i'r dwyrain o'r B4265 yn cefnogi'r dewis cyntaf. Yn ogystal, ychydig iawn o ymatebion a gafwyd o ystâd Fferm yr Ynys ei hun i'r holiadur a ddosbarthwyd gan Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Nododd y Comisiwn ddatblygiad cynllunio posibl ar gyfer yr ardal ond nid oedd unrhyw amserlen glir ar gyfer hyn pe roddir caniatâd cynllunio. Nid oedd y datblygiad yn cynnwys unrhyw dai newydd. Roedd y Comisiwn yn parhau i fod o'r farn y byddai'n amhriodol gwneud unrhyw arsylwadau ynghylch hyfywedd Cyngor Cymuned Merthyr Mawr neu i ostwng nifer bresennol yr etholwyr. Roedd y Comisiwn o'r farn nad oedd llawer o wahaniaeth rhwng dewisiadau dau a thri, fodd bynnag dewis tri, sef yr un a oedd yn gadael y B4265 (Ffordd Ewenni) i ddilyn y rheilffordd a fyddai'n effeithio leiaf ar y trefniadau presennol. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ystyried mabwysiadu dewis tri ar gyfer yr adroddiad terfynol ac y byddai'n ystyried hyn ymhellach mewn cyfarfod yn ddiweddarach.

6. AROLWG CYMUNEDOL CONWY – ADRODDIAD TERFYNOL

6.1 Nododd y Comisiwn yr Adroddiad Terfynol ar gyfer arolwg Cymunedol Conwy. **Cytunwyd** bod yr adroddiad yn cael ei gyfieithu a'i gyhoeddi.

7. AROLWG CYMUNEDOL CAERDYDD – ADRODDIAD TERFYNOL

7.1 Adroddwyd bod yr Ysgrifenyddiaeth wedi ymgynghori â phreswylwyr Duncan Close i gael eu barn am gael eu trosglwyddo i Gymuned Hen Laneirwg. Ac eithrio un gwrthwynebiad, roedd yr holl ymatebion a dderbyniwyd o blaid symud i Hen Laneirwg. **Cytunwyd** y byddai'r adroddiad terfynol yn cynnig y byddai Duncan Close yn cael ei drosglwyddo i Gymuned Hen Laneirwg. **Cytunwyd** y byddai'r Adroddiad Terfynol yn cael ei anfon at Gyfreithiwr y Trysorlys am yr archwiliad cyfreithiol, manwl arferol cyn iddo gael ei gyfieithu a'i gyhoeddi.

8. AROLWG O'R FFIN RHWNG SIROEDD POWYS A MERTHYR TUDFUL

8.1 Nid oedd adroddiad a chynigion y Comisiwn ar gyfer Arolwg o'r ffin rhwng Siroedd Powys a Merthyr Tudful wedi cynnwys unrhyw gyfeiriad at gynigion ôl-ddilynol i'r Ffin Sirol a gadwyd rhwng Powys a Morgannwg Ganol a'r ffin rhwng Heddluoedd Dyfed Powys a De Cymru.

8.2 Tynnwyd sylw'r Comisiwn at hyn gan yr Isadran Noddi ac o ganlyniad ceisiodd yr Ysgrifennydd gyngor ymgynghorydd cyfreithiol y Comisiwn am ba gamau gweithredu y gellid eu cymryd i unioni'r hepgoriad hwn. Amlinellodd Cyfreithiwr y Trysorlys i'r cyfarfod y ddau ddewis a oedd ar gael i'r Comisiwn:

- Gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) addasu cynigion y Comisiwn i gynnwys newidiadau ôl-ddilynol i'r ffin Sirol; neu
- Gallai'r Comisiwn gael cyfarwyddyd gan LlCC i gynnal arolwg atodol.

8.3 Yn dilyn trafodaeth â Chyfreithiwr y Trysorlys, **cytunwyd** er mwyn i'r Comisiwn allu cyflawni ei ddyletswyddau, byddai llythyr yn cael ei anfon at Lywodraeth Cynulliad Cymru yn amlinellu'r ddau ddewis oedd ar gael a gofyn am ymateb o ran pa ddewis oedd yn well ganddynt.

8.4 **Cytunwyd hefyd** bod angen cryfhau'r gweithdrefnau arolwg er mwyn sicrhau na fyddai hyn yn digwydd eto a byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn drafftio cyfres o weithdrefnau ar gyfer gwirio adroddiad arolwg cyn iddo gael ei gyhoeddi. **Cytunwyd hefyd** y byddai hyn yn cael ei ychwanegu at y gofrestr risgiau.

9. AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL

9.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd fod llythyr am Gyfarwyddiadau'r arolwg etholiadol bellach wedi'i dderbyn oddi wrth y Gweinidog. Cyflwynwyd amserlen arfaethedig ar gyfer y rhaglen arolwg ac fe'i nodwyd gan y Comisiwn.

9.2 Nodwyd nad oedd y Cyfarwyddiadau yn cyfeirio'n uniongyrchol at deneurwydd cefn gwlad ac felly'n caniatáu'r Comisiwn i osod ei amserlen a'i gyfrannau ei hunan

ar gyfer cynnal yr arolwg. Roedd yn ofynnol i'r Comisiwn hefyd gael cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol ar gyfer adrannau etholiadol un aelod neu rai amlaelod.

9.3 Ystyriodd y Comisiwn oblygiadau'r Cyfarwyddiadau ac effaith y gymhareb Cynghorwyr i etholwyr sef 1:1750. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn llunio model i ddangos yr effaith ar brif awdurdodau wrth ddefnyddio'r gymhareb 1:1,750 yn gaeth ynghyd â modelau eraill yn caniatáu amrywiadau o 10%, 20% a 30% i'r gymhareb 1750.

9.4 Ymatebodd Cyfreithiwr y Trysorlys i gyfres o gwestiynau yn gysylltiedig â chynnwys y Cyfarwyddiadau ac amlinellodd y camau gweithredu a oedd ar gael i'r Comisiwn yn ystod proses yr Arolwg wrth bennu'r trefniadau ar gyfer pob Prif Awdurdod yng Nghymru.

9.5 Ystyriwyd, er mwyn sefydlu canlyniad teneurwydd gwledig ar y weithdrefn arolwg, y byddai'n ddymunol pe ymgymerir ag arolygon Gwynedd a Phowys fel ei gilydd yn yr un gyfran a chyn arolwg Merthyr Tudful. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn canfod a fyddai modd gwneud hyn ac adrodd yn ôl.

9.6 **Cytunwyd** y byddai crynhoad yn cael ei gynhyrchu yn amlinellu goblygiadau cyfreithiol a dehongli cynnwys y cyfarwyddyd. Roedd Cyfreithiwr y Trysorlys yn fodlon cyfrannu i'r broses hon.

10. LLYFRYN GWYBODAETH AROLYGON ETHOLIADOL

10.1 Adroddwyd bod y llyfryn gwybodaeth presennol wedi'i anfon at yr Ymgyrch Saesneg Clir a oedd wedi cynhyrchu copi diwygiedig yn cydymffurfio â safon Saesneg Clir. Roedd y copi diwygiedig wedi'i anfon at ymgynghorydd cyfreithiol y Comisiwn a oedd yn pryderu bod rhan o'r cynnwys technegol a chyfreithiol yr oedd angen ei gadw yn y llyfryn wedi'i ddileu gan yr Ymgyrch Saesneg Clir.

10.2 Yn dilyn trafodaethau â Chyfreithiwr y Trysorlys yn ystod y cyfarfod, **cytunwyd** bod angen llyfryn gwybodaeth ar y Comisiwn a oedd yn gadarn yn gyfreithiol ond ei fod hefyd yn cadw cymaint o ddiwygiadau Saesneg Clir ag y bo modd. Cadwodd y Comisiwn y syniad o'r posibilrwydd o gynhyrchu dogfen Saesneg Clir fwy syml pe bai ei hangen yn y dyfodol.

11. CYFARFOD CYFFREDINOL AGORED BLYNYDDOL 2008 – GWERTHUSIAD O'R ADBORTH

11.1 Cyflwynwyd adroddiad a oedd yn dangos bod Cyfarfod Cyffredinol Agored Blynyddol 2008 yn un llwyddiannus iawn a bod yr adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn. Ystyriwyd y byddai'n fwy buddiol yn y dyfodol i newid y ffurf a chynnal tri gweithdy ymgynghori o amgylch Cymru yn ystod misoedd Hydref, Tachwedd a Rhagfyr.

11.2 **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn ystyried bod yn bresennol trwy gael stondin yng nghynadleddau blynyddol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru.

12. GWERTHUSIAD O DDIGWYDDIADAU GWEITHDAI

12.1 Cyflwynwyd adroddiad am weithdai 2008. O'r sylwadau a dderbyniwyd, nododd yr adroddiad fod y gweithdai wedi bod yn llwyddiannus a bod yr adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn.

13. DADANSODDIAD O DDIGWYDDIADAU GWEITHDY

13.1 Cyflwynwyd crynodeb o'r tri gweithdy. Nododd adborth o'r gweithdai yr angen am gyfathrebu gwell rhwng y Comisiwn a'i randdeiliaid. Hefyd roedd barn gyffredinol y dylai ffiniau ystyried hunaniaeth Cymunedau a ffactorau daearyddol a hanesyddol.

13.2 Cyflwynwyd ffurf ddrafft o gylchlythyr. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu'r ffurf a chaiff ei gyhoeddi o bryd i'w gilydd yn ôl y gofyn. **Cytunwyd** y byddai'r cylchlythyr cyntaf yn cynnwys adborth o'r tri gweithdy a'r gwaith y mae'r Comisiwn yn ymgymryd ag ef ar hyn o bryd. **Cytunwyd** y byddai copïau o'r cylchlythyr yn cael eu hanfon at y Prif Gynghorau a Chymdeithasau Cynghorau Cymuned ynghyd â chais i'w hanfon at Gynghorwyr Cymuned.

14. CYNLLUN CYHOEDDI

14.1 Adroddwyd bod llythyr wedi'i dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn amlinellu'r cynllun cyhoeddi diwygiedig a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2009. Dyddiad y llythyr oedd 16 Rhagfyr 2009 ac fe'i derbyniwyd ar 2 Ionawr 2009.

14.2 Byddai angen cryn dipyn o waith ar y cynllun cyhoeddi diwygiedig gan ei fod yn llawer mwy manwl na'r cynllun presennol. Ystyriwyd nad oedd unrhyw risgiau sylweddol yn deillio o oedi ei weithredu ar ôl y terfyn amser 1 Ionawr 2009. Adroddir am y cynnydd mewn tri mis.

14.3 Mynegodd y Comisiwn bryder ynghylch y cyfnod byr o amser a ganiatawyd i weithredu'r cynllun hwn. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn ceisio dod o hyd i bryd y cyhoeddwyd y cynllun newydd ac a fu unrhyw oedi wrth roi gwybod i'r Comisiwn am y gofynion. **Cytunwyd** y byddai ymateb yn cael ei ddrafftio i'r Isadran Noddi, yn datgan y byddai'r Comisiwn yn ymdrechu i weithredu gofynion y cynllun ond ei fod yn anfodlon ar yr amserlen ar gyfer ei weithredu.

15. CYNLLUN GWEITHREDOL DRAFFT 2009/10

15.1 Hysbysodd yr Ysgrifennydd y Comisiwn ei fod wedi cysylltu â'r Isadran Noddi yn gofyn am gyngor ar fformat y cynllun gweithredol yn sgil yr argymhellion a wnaed yn adroddiad diweddar SAC. Ni chafwyd ateb hyd yn hyn. **Cytunwyd** cynnwys cynllun gweithredol drafft ar agenda cyfarfod nesaf y Comisiwn.

16. UNRHYW FATER ARALL

16.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

17. DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF

17.1 Pennwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:

11 Chwefror 2009
18 Mawrth 2009
12 Mai 2009